# Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010

**2010 mccc 3**

**8 Datganiadau niferoedd ac amcangyfrifon**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n atebol i dalu ardoll mewn perthynas ag unrhyw gyfnod gyflwyno datganiad ynghylch y cyfnod hwnnw.

(2) Rhaid i'r datganiad gynnwys—

(a) nifer y gwartheg, defaid neu foch y gellir codi ardoll amdanynt am y cyfnod y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a

(b) unrhyw fanylion eraill a bennir gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i'r datganiad gael ei gyflwyno erbyn y dyddiad, ac yn y modd a'r ffurf, a bennir mewn cyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru.

(4) Os bydd unrhyw berson sy'n atebol i gyflwyno datganiad—

(a) yn methu â chyflwyno'r datganiad erbyn y dyddiad a bennir,

(b) yn methu â chynnwys amcangyfrif yn y datganiad o nifer y gwartheg, defaid neu foch y gellir codi ardoll amdanynt, neu

(c) yn cynnwys amcangyfrif yn y datganiad sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn afresymol o isel,

caiff Gweinidogion Cymru amcangyfrif nifer yr anifeiliaid a ddylai fod wedi ei nodi yn y datganiad.

(5) Os bydd Gweinidogion Cymru yn amcangyfrif nifer yr anifeiliaid yn unol ag is-adran (4), rhaid iddynt hysbysu'r person sy'n atebol i dalu'r ardoll yn ysgrifenedig o'r amcangyfrif hwnnw.

(6) Wedi iddo gael ei hysbysu o'r amcangyfrif, os bydd y person sy'n atebol i dalu'r ardoll yn methu â chyflwyno datganiad yn cynnwys amcangyfrif o fewn 28 niwrnod o dderbyn yr hysbysiad, rhaid i'r person hwnnw dalu ardoll ar nifer yr anifeiliaid a amcangyfrifwyd.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru bennu bod cyfradd uwch o ardoll yn daladwy pan fo nifer yr anifeiliaid wedi ei amcangyfrif ganddynt hwy o dan yr adran hon, ond rhaid

i'r gyfradd honno beidio â bod yn uwch nag unrhyw uchafswm ar gyfradd ardoll a ddarperir o dan y Mesur hwn.

(8) Mae person sy'n methu, heb esgus rhesymol, â chyflwyno datganiad yn unol â gofynion unrhyw gyfarwyddyd yn euog o dramgwydd sy'n dwyn cosb, ar gollfarn ddiannod, o ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(9) Mae person sy'n darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn perthynas ag unrhyw ofynion o dan y Mesur hwn yn euog o dramgwydd sy'n dwyn cosb, ar gollfarn ddiannod, o ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 8 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 18(2)**

**I2** A. 8 mewn grym ar 1.4.2012 gan O.S. 2011/2802, **ergl. 2(2)** (ynghyd ag erglau. 3, 4)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010, Adran 8.